# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 9 MAWRTH 2017 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Evans | E W Fitzgerald | P R Hood-Williams |
| J W Jones | E J King | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Pamela Milford | Uwch-gyfreithiwr |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): U C Clay, N J Davies, T J Hennegan, C A Holley a/ac G J Tanner
Arall: P M Black

145 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

146 **GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

147 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

148 **CRAFFU AR DROSEDDU AC ANHREFN - CYNNYDD AR BERFFORMIAD PARTNERIAETH ABERTAWE MWY DIOGEL. CWESTIYNAU I'R CYD-GADEIRYDDION:**

Roedd y Prif Uwch-arolygydd Martin Jones (Heddlu De Cymru) a Chris Sivers (Cyfarwyddwr Pobl) yn bresennol i roi adroddiad cynnydd ar Berfformiad y Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel ac ateb cwestiynau. Yn ddiweddar roedd y Prif

Uwch-arolygydd Jones wedi llenwi lle’r Prif Uwch-arolygydd Joe Ruddy fel Comander Rhanbarthol ar gyfer ardal Abertawe.

Rhoddwyd cyflwyniad ar y cyd a oedd yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Cadeirio'r Bartneriaeth ac amlder cyfarfodydd:
- Blaenoriaethau Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel a Gweithgareddau Allweddol 2016-17;
- Adolygu Comisiynu Diogelwch Cymunedol;
- Cynllun Gweithredu Cam-drin Domestig a'r Hwb;
- Economi'r Hwyr a Chyda'r Nos;
- Cais Baner Borffor;
- Gwaith Prosiect Diogelwch Cymunedol;
- Ystadegau Troseddau Amrywiol:
    - Troseddau a gofnodwyd;
    - Trais yn Erbyn y Person a Gorchymyn Cyhoeddus;
    - Troseddau Rhywiol;
    - Lladrata;
    - Troseddau Casineb;
    - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;
- Sectorau sy’n Cofnodi'r Newid Mwyaf;
- Camau Nesaf Datblygu'r Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

Nodwyd y ddwy brif thema a blaenoriaeth ar gyfer Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel fel a ganlyn:

- Yr Economi gyda'r Hwyr a Chyda'r Nos; a
- Cham-drin Domestig.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Pobl at yr Hwb Cam-drin Domestig, a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cabinet fel rhan o'r Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd.

Esboniodd fod cam-drin domestig hefyd yn flaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y prosiect yn ceisio datblygu un llwybr atgyfeirio integredig clir rhwng trais domestig yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), camddefnyddio sylweddau ac asiantaethau iechyd meddwl sy'n arwain at gefnogaeth briodol ac ymyriadau amserol ar gyfer y rhai hynny sy'n wynebu'r materion cyfredol hyn. Rydym yn y broses o benodi Cydlynydd Atgyfeirio Cam-drin Domestig, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau.

Dywedodd y Prif Uwch-arolygydd fod y ffigurau troseddu cenedlaethol yn gostwng. Fodd bynnag, mae'r bartneriaeth yn delio â mwy a mwy o faterion diamddiffynnedd a materion ansawdd byw.

Yn gyffredinol roedd y troseddau a gofnodwyd wedi gostwng 23.1% ar draws Abertawe wrth gymharu 2015-2016 â 2008-2009.

Cafwyd tuedd ar i fyny mewn troseddau a gofnodwyd ers 2014-2015 oherwydd y cafwyd newid yn y prosesau cofnodi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2014, lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion cyhoeddus bellach yn cael eu cofnodi fel troseddau.

Cafwyd cynnydd o 36.8% mewn trais heb droseddau sy'n peri anaf a chynnydd o 35.4% mewn troseddau gorchmynion cyhoeddus. Gan fod cyfathrebu maleisus bellach yn cael ei gofnodi fel trosedd dan y pennawd Trais heb Anaf, roedd y cynnydd hwn o ganlyniad i'r ail-gategoreiddio.

Cafwyd 13% o Drais yn erbyn Person ac 19% o Droseddau Gorchmynion Cyhoeddus ar Stryd y Gwynt, serch hynny dywedodd fod llawer iawn o waith yn parhau gan y Bartneriaeth er mwyn gwneud y cyhoedd yn fwy diogel.

Roedd lladrad o geir a byrgleriaeth wedi lleihau, ond roedd y risg a'r niwed wedi amlygu'i hun mewn ffyrdd eraill.

Y gyfradd ganlyniadau ar gyfer trais yn erbyn y person oedd 27.6%, gostyngiad ar y llynedd ac islaw cyfradd yr heddlu sef 31.1%, gan wneud De Cymru'n un o'r prif berfformwyr yn y wlad, nid yng Nghymru'n unig.

Oherwydd achosion proffil uchel megis achos "Jimmy Saville" ac achosion sy'n ymwneud â phêl-droedwyr, cafwyd cynnydd o 14.6% mewn achosion o droseddau rhywiol yr adroddwyd amdanynt. Mae'r gyfradd gollfarnu yn y llys o ran achosion o drais rhywiol wedi cynyddu eleni i 70% o'i gymharu â 44% yn y flwyddyn flaenorol.

O ran troseddau casineb, cafwyd y newid mwyaf mewn troseddau hiliol a oedd wedi cynyddu 22 trosedd. Dywedodd y Prif Uwch-arolygydd y gallai'r ffigur adrodd fod yn uwch gan y credai nad oedd pobl yn adrodd am droseddau a ailadroddir.

Roedd troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng yn Nhreforys ond wedi cynyddu yn wardiau Cwmbwrla a'r Castell.

Cafwyd y newidiadau mwyaf mewn troseddau a gofnodwyd yn Nhreforys, Eastside a Townhill.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Pobl ei bod yn edrych ymlaen at ailfywiogi gwaith y bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel. Byddai heriau'r dyfodol yn cynnwys:

- Cam-drin Domestig
- Camddefnyddio Sylweddau
- Yr Economi gyda'r hwyr a chyda'r nos
- Troseddau Casineb

Gofynnodd aelodau amrywiaeth o gwestiynau a oedd yn ymwneud â'r pynciau canlynol:

- Cynnydd mewn troseddau rhywiol a thrais yn erbyn y person - a oedd y rhai a oedd yn cyflawni'r drosedd yn teimlo y byddent yn cael eu dal/cosbi;

- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant - angen mwy o ymwybyddiaeth a gwyliadwriaeth; a oedd hyfforddiant diogelu ar gyfer gyrwyr tacsis, fel a wneir mewn awdurdodau eraill, fel amod o roi trwydded;
- Addysg i blant yn yr ysgol o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant/cyfryngau cymdeithasol/seibrfwlio yn ogystal â chynnwys y gymuned gyfan wrth gynyddu ymwybyddiaeth o nodi materion yn eu hardal leol er mwyn amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn; i ba raddau y mae Heddlu'n gweithio gydag ysgolion ynghylch diogelwch ar-lein ac atal etc;
- Pobl ifanc ddiamddiffyn a'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael drwy'r sefydliadau partneriaeth amrywiol - ceir perygl y gall anghenion unigol y plant (sy'n aml yn gymhleth) gael eu colli yn y system sy'n gallu cynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau i Blant ac Iechyd;
- Sut i roi stop ar y cylch diamddiffynnedd sy'n arwain pobl i'r system cyfiawnder troseddol; astudiaethau profiad plentyndod andwyol (effaith ar ymddygiad oedolion);
- Camddefnyddio sylweddau - effaith deddfwriaeth ddiweddar sy'n gwahardd sylweddau seicoweithredol; cysylltiadau ag iechyd meddwl; diffyg mynediad y tu allan i oriau i'r gwasanaethau iechyd meddwl;
- Adolygiad Comisiynu Cefnogi Teuluoedd a chynigion ar gyfer un porth ar gyfer plant dan 11 oed a thros 11 oed;
- Oedolion diamddiffyn yn cael eu targedu yn y gweithredoedd twyllodrus amrywiol gan gynnwys y rhai ar-lein; mynd i'r afael â'r her o ddiogelu'r boblogaeth sy'n heneiddio rhag cael eu twyllo i roi eu harian;
- Ymgyrchoedd i atgoffa'r cyhoedd i fod yn wyliadwrus drwy gloi ceir/drysau gartref, hyd yn oed os ydynt yn teimlo eu bod yn byw/gweithio mewn ardal "ddiogel";
- Canfyddiadau o'r ymchwiliad craffu diweddar ar y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS) - gan sicrhau bod y gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a CAHMS yn cael eu cynnwys yn y porth ar gyfer cymorth i deuluoedd (fel rhan o gynigion Adolygu Comisiynu Cymorth i Deuluoedd).

Diolchodd y cadeirydd i'r Prif Uwch-arolygydd Martin Jones a Chris Sivers am y cyflwyniad addysgiadol ac roedd yn edrych ymlaen at dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf cyn bo hir.

## 149 ADRODDIADAU CYNNYDD Y PANEL CRAFFU PERFFORMIAD:

Cyfeiriodd y cadeirydd ar ran y Cynghorydd Uta Clay, Cynullydd a'r Cynghorydd Peter Black, Cynullydd Dros Dro, at yr adroddiad a nodwyd ym mhecyn yr agenda o ran y gwaith a wnaed gan y Panel Perfformiad Gwasanaethau i Oedolion.

**CYTUNWYD** i gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 150 ADRODDIADAU CRAFFU - ADRODDIAD EFFAITH CHWARTEROL.

Cyflwynodd y cadeirydd ddrafft o'r adroddiad chwarterol gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu i'r Cyngor ar effaith craffu, a oedd yn cynnwys stori ar adroddiad yr Ymchwiliad Craffu Trechu Tlodi sydd wedi'i gwblhau, a bydd hwn yn cael ei adrodd

i'r Cabinet ar 16 Mawrth 2017 a sut mae'r Panel Ymchwiliad Cynhwysiad Addysg a’r Panel Ymchwiliad Gofal Cymdeithasol Gartref wedi gwneud gwahaniaeth.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar gynnwys yr 'Adroddiadau Craffu' drafft a'u cyflwyno i'r cyngor ar 23 Mawrth 2017.

151 **RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.**

Cyflwynodd y cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2016/2017.

Darparodd yr adroddiad y canlynol i'r pwyllgor:

- Y Rhaglen Waith Craffu bresennol;
- Cynllun ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor y dyfodol;
- Adroddiad cynnydd a chynllun ar gyfer y paneli a'r gweithgorau presennol amrywiol.

Pwysleisiodd y cadeirydd fod yr agenda'n drwm ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 13 Mawrth 2017, a gofynnodd yn arbennig i aelodau'r pwyllgor adolygu adroddiadau'r cabinet sy'n destun craffu cyn penderfynu a nodi unrhyw faterion neu bryderon, ac unrhyw gwestiynau y maent am eu gofyn ynghylch yr eitem sy'n cael ei heithrio ar adeilad Oceana.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

152 **AELODAETH PANELI A GWEITHGORAU CRAFFU.**

Nid oedd unrhyw ddiweddariadau i adrodd amdanynt.

153 **LLYTHYRAU CRAFFU.**

Adroddodd y cadeirydd am gofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

**PENDERFYNWYD** nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu a'r wybodaeth ddiweddaraf.

154 **ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.**

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau craffu'n ddiweddar.

155 **DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.**

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau craffu ar ddod i adrodd amdanynt.

156 **CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO (ER GWYBODAETH).**

Nodwyd cynllun gwaith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2016/2017.

157 **DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17.**

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

158 **DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PANELI/GWEITHGORAU SYDD AR DDOD.**

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.53 pm

**CADEIRYDD**